Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion

Yr Uned Wenyn Genedlaethol

Meddyginiaethau gwenyn

Ebrill 2024

Er mwyn atal mêl, y bwriedir iddo gael ei fwyta gan bobl o bosibl, rhag cael ei halogi, o dan y gyfraith dim ond cynhyrchion sydd wedi'u hawdurdodi gan y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol y gellir eu defnyddio ar nythfeydd gwenyn mêl heb bresgripsiwn milfeddygol. Mae'r ffeithlen hon yn rhestru'r meddyginiaethau awdurdodedig a all gael eu defnyddio'n gyfreithlon ar nythfeydd gwenyn mêl yn y DU heb bresgripsiwn milfeddygol.

Beth yw ‘meddyginiaethau awdurdodedig’?

Yn y DU, mae sawl triniaeth ar gael ‘dros y cownter’. Fodd bynnag, ni fydd pob un o'r rhain wedi mynd drwy broses asesu er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'r defnyddiwr, y nythfa a'r amgylchedd, a sicrhau eu bod yn effeithiol. Er mwyn sicrhau eich bod yn defnyddio cynnyrch awdurdodedig, edrychwch ar y rhestr isod. Ceir rhestr fwy manwl a chyfredol hefyd drwy ddewis ‘Honey bees’ fel y rhywogaeth yn: www.vmd.defra.gov.uk/ProductInformationDatabase/search

Alla i ddefnyddio cynhyrchion sydd ar gael yn Ewrop a gwledydd eraill?

Os na fydd cynhyrchion wedi'u hawdurdodi a/neu os na fyddant ar gael yn y DU i drin neu atal clefyd mewn gwenyn, gall milfeddyg wneud cais am Dystysgrif Fewnforio Arbennig i fewnforio meddyginiaeth sydd wedi'i hawdurdodi i'w defnyddio yn y fath fodd mewn gwlad arall.

Alla i ddefnyddio sylweddau naturiol generig i drin fy nythfeydd?

Mae unrhyw beth a osodir mewn cwch gwenyn i reoli neu ddileu pla neu glefyd yn cael ei ystyried yn feddyginiaeth ac, oni chaiff ei ragnodi gan filfeddyg, rhaid iddo gael ei awdurdodi yn unol â'r Rheoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol (2013). Felly, heb bresgripsiwn milfeddygol, mae'n drosedd rhoi cynhyrchion anawdurdodedig a/neu gymysgeddau cartref (e.g., crisialau asid ocsalig "heb eu trin" generig, hydoddiannau thymol a wnaed gennych chi ein hun).

Pa gofnodion y dylwn eu cadw?

O dan y gyfraith mae'n ofynnol i wenynwyr gadw cofnod o unrhyw feddyginiaethau a gaiff eu prynu, eu defnyddio a'u gwaredu ganddynt. Ar waelod y ffeithlen hon, mae taflen Cofnodi Meddyginiaethau Milfeddygol a Roddwyd, sy'n bodloni holl ofynion cyfreithiol y Rheoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol (2013). Efallai y byddwch am ei chynnwys yng nghofnodion eich gwenynfa. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cofnodi'r holl ofynion gorfodol rhestredig. Dylid cadw cofnodion am o leiaf bum mlynedd, p'un a yw'r nythfa dan sylw yn dal i fod ym meddiant y gwenynwr hwnnw ai peidio neu p'un a yw wedi marw yn ystod y cyfnod hwnnw ai peidio. Mae'r ffurflen hon hefyd ar gael fel pdf.

Ar adeg ysgrifennu'r ffeithlen hon, mae'r meddyginiaethau canlynol wedi'u cymeradwyo i'w defnyddio i drin gwenyn mêl yn y DU:

Enw'r Driniaeth	Cynhwysion Actif	I reoli
Apiguard (gel)	Thymol	*Varroa*
Apilife-VAR (stribedi)	Thymol ac olewau naws (camffor, ewcalyptws a menthol)	*Varroa*
Apistan (stribedi)	Tau fluvalinate	*Varroa*
Api-Bioxal (powdwr)	Deuhydrad asid ocsalig	*Varroa*
Api-Bioxal* (hydoddiannau)	Deuhydrad asid ocsalig	*Varroa*
Apitraz (stribedi)	Amitraz	*Varroa*
Apivar (stribedi)	Amitraz	*Varroa*
Dany's BienenWohl (powdwr a hydoddiant)	Deuhydrad asid ocsalig	*Varroa*
Formicpro (stribedi)	Asid fformig	*Varroa*
Oxuvar (crynodiad ar gyfer hydoddiant)	Deuhydrad asid ocsalig	*Varroa*
Oxybee (powdwr a hydoddiant)	Deuhydrad asid ocsalig	*Varroa*
Thymovar (stribedi)	Thymol	*Varroa*
VarroMed (hydoddiannau)	Asid fformig, deuhydrad asid ocsalig	*Varroa*

*Awdurdodwyd ym Mhrydain Fawr yn unig

National Bee Unit
APHA, Room 11G03, York Biotech Campus,
Sand Hutton, York, YO41 1LZ UK
Rhif ffôn: 0300 303 0094
E-bost: nbu@apha.gov.uk
Gwefan: www.nationalbeeunit.com

Ebrill 2024

(h) Hawlfraint y Goron 2024

Gallwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau fersiwn 3 y Drwydded Llywodraeth Agored. Er mwyn gweld y drwydded hon ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ neu e-bostiwch PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk

COFNOD O ROI MEDDYGINIAETHAU MILFEDDYGOL – I'W GADW AM O LEIAF 5 MLYNEDD

ENW A CHYFEIRIAD LLAWN YR UNIGOLYN SYN CADW'R CONFOD	ENW:	*Rhif Adnabod yr UWG:*
CYFEIRIAD : COD POST:	*RHIF FFÔN:*	
	E-BOST:	ENW / CYFEIRNOD MAP Y WENYNFA:

I'W CWBLHAU AR ADEG PRYNU'R FEDDYGINIAETH						**I'W CWBLHAU AR ADEG RHOI'R FEDDYGINIAETH**							
Enw a Chyfeiriad Cyflenwr y Cynnyrch Meddyginiaethol	Dryddiad Pyrnu	Manylion a Swm y Cynnyrch Meddyginiaethol				Dyddiad Rhoi	Rhif adnabod yr anifail neu Lwyth yr Anifeiliaid a driniwyd		Dyddiad gorffen y driniaeth	Dyddiad gorffen y cyfnod tynnu'n ôl	Enw'r unigolyn a roddodd y feddyginiaeth filfeddygol	Cyfanswm y feddyginiaeth filfeddygol a ddefnyddiwyd	Dyddiad, swm a dull gwaredu os na chafodd ei rhoi
		Enw	Rhif y Swp	Swm	Cyfnod Tynnu'n ôl		Rhif adnabod	Y Nifer a driniwyd					

DS: Mae a wnelo colofnau sydd â phenawdau mewn italig â gwybodaeth NAD yw'n ofyniad statudol ond a fydd yn helpu i fodloni rhai o ofynion y Cynllun Gwarant Ffermydd.Rhaid cadw Prawf o Brynu ar gyfer yr holl gynhyrchion milfeddygol. Nodiadau canllaw cyffredinol yn unig yw'r rhain ac ni ddylid ystyried eu bod yn gynrychioliad awdurdodol o'r gyfraith. Ceir rhagor o wybodaeth gan: The Veterinary Medicines Directorate. Woodham Lane, New Haw, Addlestone, Surrey. KT15 3LS. www.vmd.defra.gov.uk